Pobl ifainc: Mae croeso i blant a phobl ifainc. Rhowch wybod i ni am niferoedd, oedrannau ac unrhyw anghenion arbennig. Bydd yna lle arbennig i blant a (gobeithio) rhai yn eu harddegau, rhaid digwyddiadau ond cofiwch mai chi sy'n gyfrifol am unrhyw bobl ifainc yr ydych yn dod gyda chi.

Cost: Ar y giat byddwn yn gofyn am £15 oddiwrth pob oedolyn (gan gynnwys pawb sy'n rhoi help llaw) i dalu am gostau'r digwyddiad. Does ganddom ddim swyddfa ganolog, dim aelodaeth, dim swyddogion cyflogedig a dim pres. Croesawn unrhyw gyfraniadau - gwneud sieciau neu archebion post yn daladwy i **Earth First!**

Bwyd: Bydd cegin symudol y Tebot Anarchaidd yn coginio bwyd figan yn rhydd o GM. Gallwch brynu tocynnau bwyd am £4 y dydd neu dod a bwyd eich hunain i goginio gyda stof wersylla. Mae yna hefyd lle i bobl efo plant i goginio gyda'u gilydd neu ar eu pennau'u hunain.

Cwn: Mae ffermydd defaid yn amgylchynnu'r safle eleni. Bydd cwn sy'n cael rhedeg yn rhydd yn debygol o gael eu saethu gan berchnogion tir, felly gadewch eich ci adre neu gyda ffrindiau os yn bosib. Bydd angen cadw cwn ar dennyn ar bob achlysur. Os ydych yn gorfod dod a ci gyda chi, rhowch wybod o flaen llaw.

Camerau a'r cyfrynau: Nid digwyddiad i'r wasg yw hwn, felly does dim croeso i newyddiadurwyr. Parchwch dymuniadau rhai pobl i beidio cael tynnu eu lluniau a gadewch eich camera adre.

Digwyddiad Haf 2006 Y Ddaear yn Gyntaf

Sgwennwch at: EF!, 38 Wells Rd, Colchester CO1 2YW
Ffôn:0845 223 5254
E-bost: efgathering@aktivix.org
Wefan: www.earthfirstgathering.org.uk

Llawer mwy o wybodaeth ar y wefan

This leaflet is also available in English.
Mae'r daflen yma ar gael yn Saesneg.

DATBLYGU DEWISIADAU ERAILL I'R BYD CORFFORAETHOL O GELWYDD, ELWA A BARUSRWYDD

Earth First!

Y Ddaear yn Gyntaf!

Digwyddiad Haf 2006

I bawb sydd am rannu sgiliau a syniadau ar weithredu uniongyrchol er mwyn pobl a phlaned



yn cael ei gynnal yng Nghorllewin Cymru
Dydd Mercher 16eg - Dydd Sul 20fed o Awst

Pump diwrnod o fyw amgylcheddol cynaladwy, bod gyda'n gilydd, chwarae, cynllunio, cynllwynio er mwyn achub ein byd prydferth rhag cael ei ddinistrio. Ymunwch â ni - y bwriad yw gwneud hwn yn ddigwyddiad cynwysiedig.